

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

### **Diolch yn fawr am bob cydweithrediad wrth i ni barhau i ymateb i her y coronafeirws.**

**Achos positif o Covid-19 yn yr ysgol** - yn dilyn fy llythyr ddoe mi fyddwch yn ymwybodol fod yna achos positif o Covid-19 ym Mlynweddyn 3, dosbarth Buddug Davies ac fel canlyniad mae'r dosbarth a'r staff yn hunanynysu am 10 diwrnod tan hanner nos ar nos Fawrth, Rhagfyr 22ain. Mae gweddill dosbarthiadau Bl 3W, Bl 4D a Bl 4J hefyd ar gau heddiw fel mater rhagofalus yn unig – nid oes angen iddynt hunanynysu. Mae gweddill yr ysgol wedi bod ar agor fel arfer.

**Dysgu o bell** - o ddydd Mawrth, Rhagfyr 15fed tan ddydd Gwener, Rhagfyr 18fed mi fydd yr ysgol yn gweithredu dysgu o bell i bob blwyddyn er mwyn parhau ag addysg y disgyblion. Mi fydd hyn yn digwydd yn ddigidol drwy Teams ond mi fyddwn hefyd yn rhannu copiâu papur o'r tasgau heddiw. Yn anffodus ni fydd modd rhannu copiâu papur gyda'r disgyblion sydd wedi bod i ffwrdd o'r ysgol heddiw.

**Arweiniad ar sut i ddefnyddio Teams** - [2020\\_04\\_03\\_Hwb\\_a\\_Teams.pdf \(ysgolgymraeg.cymru\)](#)  
[Cyfarwyddiadau Hwb a Teams - YouTube](#)

**Gweithgareddau** – mi fydd y staff yn dosbarthu'r tasgau ar Teams. Mi fydd y tasgau fel a ganlyn;

1. Un dasg ddyddiol drwy Teams a fydd hefyd ar gael drwy gopi papur - mi fyddwn yn gosod yr holl dasgau ar gyfer yr wythnos ar Teams heddiw neu yfory. Mi fyddwch hefyd wedi derbyn copi papur o'r tasgau os oeddech yn yr ysgol heddiw.
2. Llyfrynn o weithgareddau Nadoligaidd fydd modd i ddisgyblion eu cwblhau a'u mwynhau yn annibynnol yn ystod yr wythnos. (ni fydd hyn ar gael drwy gopi papur i ddisgyblion sydd wedi bod i ffwrdd o'r ysgol heddiw)

**Cyfarfodydd dyddiol** - mi fydd staff yr ysgol yn trefnu cyfarfodydd dyddiol ar gyfer y flwyddyn addysgol drwy Teams am tua hanner awr bob dydd. Mi fydd angen i chi fynd i safle Teams - General eich plentyn ac mi fydd y sgrîn yn ymddangos fel hyn yn Posts er mwyn i chi wasgu 'Join' i ymuno yn y cyfarfod.



Mi fydd pob cyfarfod byw yn cynnwys o leiaf dau aelod o staff. Pwrpas y cyfarfod fydd i ddarparu cyfle i'r disgyblion gael sgwrs anffurfiol gyda'r staff, i ofyn cwestiwn am y tasgau neu i ddangos / rhannu unrhyw dasg sydd wedi ei chwblhau. **Nid oes rhaid i ddisgyblion ymuno yn y cyfarfodydd dyddiol ond mi fydd y staff ar gael os fydd angen unrhyw gymorth.**

## Amserlen ar gyfer y cyfarfodydd dyddiol ar gyfer yr wythnos:

Blwyddyn 6	9:00 – 9:30yb	Year 6
Blwyddyn 5	9:30 – 10:00yb	Year 5
Blwyddyn 4	10:00 – 10:30yb	Year 4
Blwyddyn 3	10:30 – 11:00yb	Year 3
Blwyddyn 2	11:00 – 11:30yb	Year 2
Blwyddyn 1	1:00 – 1:30yp	Year 1
Derbyn	1:30 – 2:00yp	Reception
Meithrin	2:00 – 2:30yp	Meithrin

**Offer cyfrifiadurol** – rydym wedi benthyg offer cyfrifiadurol i'r rhai ohonoch oedd wedi gofyn am gymorth yn ystod y tymor. Cofiwch os oes gennych unrhyw anghenion cyfrifiadurol cysylltwch â mi ar unwaith.

**Datblygu symptomau Covid 19** – Mi fydd yr ysgol yn cydweithio gyda'r adran tracio ac olrhain dros gyfnod y Nadolig. Os ydy'ch plentyn neu unrhyw aelod o'ch aelwyd yn datblygu symptomau Covid-19 yna ffoniwch 119 am brawf neu archebu drwy <https://gov.wales/apply-coronavirus-covid-19-test>.

Pe bai'ch plentyn yn derbyn canlyniad prawf positif dros gyfnod y gwyliau holwn ichi e bostio SchoolCovidSymptoms@ceredigion.gov.uk gydag enw'ch plentyn, blwyddyn ac ysgol. Mae'r cyfnod hunan ynysu bellach wedi newid i 10 diwrnod yn lle 14.

**Ionawr 2021** – mae'r tymor newydd i fod dechrau i ddisgyblion ar ddydd Mawrth, Ionawr 5ed. Fodd bynnag os fydd unrhyw newidiadau i'r drefn yna mi wnaf gysylltu gyda chi eto yn ystod gwyliau'r Nadolig.

**Ffilm Nadolig** - mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol ein bod wedi creu ffilm fer i'w rhannu gyda chi ar ddiwedd y tymor. Mae'r ffilm yn cynnwys nifer o weithgareddau Nadoligaidd sydd wedi digwydd yn y dosbarthiadau ac ambell berfformiad. Mae'r ysgol wedi dilyn canllawiau Covid-19 yr Awdurdod Addysg wrth barato'i'r cyflwyniad. Rydym wedi defnyddio traciau sain canu o gyngherddau blaenorol gan and oes modd i ni ganu o fewn yr adeilad. Er mwyn fod yn gydnaws ag ysbryd y Nadolig ni fyddwn yn codi tâl am y ffilm. Mi fyddwn yn gosod y linc ar wefan yr ysgol ar **ddydd Iau, Rhagfyr 17eg am 2 o'r gloch**. Hoffwn ddiolch i'r holl staff am barato'i'r gweithgareddau ac i Mr Gareth James am yr holl waith ffil mio.

**Diolch yn fawr** - hoffwn ddiolch i chi unwaith eto am bob cydweithrediad wrth i ni ymateb i heriau'r tymor hwn. Rwy'n falch iawn o ymdrechion yr holl staff, y disgyblion a chwithau fel rhieni / gwarcheidwaid.

**Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb!**

**R C Williams**

**Pennaeth**

**14/12/2020**

[\*\*prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk\*\*](mailto:prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk)

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Thank you for all your cooperation as we continue to respond to the challenge of the coronavirus.**

**Positive test of Covid-19 in school** - following my letter yesterday you will be aware that there is a positive case of Covid-19 in Year 3, Buddug Davies' class and as a result the class and staff are isolating for 10 days until midnight on Tuesday, December 22nd. The rest of Yr 3W, Yr 4D and Yr 4J are also closed today as a precautionary only - they do not need to isolate. The rest of the school has been open as usual.

**Distance learning** - from Tuesday, December 15th until Friday, December 18th the school will implement distance learning for every year in order to continue with the education of the pupils. This will happen digitally through Teams but we will also be sharing paper copies of the tasks today. Unfortunately it will not be possible to share paper copies with the pupils who have been away from school today.


**How to use Teams** - [2020\\_04\\_03\\_Hwb\\_a\\_Teams.pdf \(ysgolgymraeg.cymru\)](#)

[Cyfarwyddiadau Hwb a Teams - YouTube](#)

**Activities** - staff will distribute tasks on Teams. The tasks will include;

1. One daily task through Teams that will also be available in hard copy - we will be putting all tasks for the week on Teams on today or tomorrow. You will also have received a paper copy of the tasks if you were at school today.
2. A booklet of Christmas activities that pupils can complete and enjoy independently during the week. (this will not be available in hard copy to pupils who have been away from school today)

**Daily meetings** - school staff will arrange daily meetings for the school year group through Teams for approximately half an hour each day. You will need to visit your child's Teams - General site and in Posts you will see the screen below with the option to 'Join' the meeting.



Each live meeting will consist of at least two members of staff. The purpose of the meeting will be to provide an opportunity for the pupils to have an informal chat with the staff, to ask a question about the tasks or to show / share any completed tasks. **Pupils do not have to join in the daily meetings but staff will be available if any assistance is required.**

## **Time table for daily meetings**

Blwyddyn 6	9:00 – 9:30yb	Year 6
Blwyddyn 5	9:30 – 10:00yb	Year 5
Blwyddyn 4	10:00 – 10:30yb	Year 4
Blwyddyn 3	10:30 – 11:00yb	Year 3
Blwyddyn 2	11:00 – 11:30yb	Year 2
Blwyddyn 1	1:00 – 1:30yp	Year 1
Derbyn	1:30 – 2:00yp	Reception
Meithrin	2:00 – 2:30yp	Meithrin

**Computer equipment** - we have provided computer equipment to those of you who asked for help during the term. Remember if you have any computer needs please contact me immediately.

**Developing symptoms of Covid 19** - The school will be working with the track and trace department over the Christmas period. If your child or any member of your household develops Covid-19 symptoms then call 119 for a test or order via <https://gov.wales/apply-coronavirus-covid-19-test>.

Should your child receive a positive test result over the holiday period we ask that you email [SchoolCovidSymptoms@ceredigion.gov.uk](mailto:SchoolCovidSymptoms@ceredigion.gov.uk) with your child's name, year and school. The self isolation period has now changed to 10 days instead of 14.

**January 2021** - the new term is set to begin for pupils on Tuesday, January 5th. However if there are any changes to the arrangements then I will contact you again during the Christmas holidays.

**Christmas film** - you are probably aware that we have created a short film to share with you at the end of the term. The film contains a number of Christmas activities that have taken place in the classrooms and a few performances. The school has followed the Education Authority's Covid-19 guidelines in preparing the film. We've used singing soundtracks from previous concerts as we can't sing in the building. To be in tune with the Christmas spirit we will not charge for the film. **We will place the link on the school website on Thursday, December 17th at 2pm.** I would like to thank all the staff for preparing the activities and Mr Gareth James for all the filming.

**Thank you** - I would like to thank you once again for all our cooperation as we respond to the challenges of this season. I am very proud of the efforts of all staff, pupils and you as parents / guardians.

**I wish everyone a Merry Christmas and a Happy New Year!**

**R C Williams**

**Headteacher**

**14/12/2020**

[\*\*prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk\*\*](mailto:prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk)